Gweithdai Marchnata Digidol - AM DDIM

Marchnata Digidol - Cyflwyniad i Rwydweithiau Cymdeithasol (I'w cynnal Yn Y Gymraeg)

Yr Wyddgrug - Gwesty'r Beaufort Park - **6ed o Fawrth** - 9:30am - 12.30pm
Llanrwst - Canolfan Glasdir - **13eg o Fawrth** - 9:30am - 12.30pm
Wrecsam - Itec - **27ain o Fawrth** - 9:30am - 12.30pm

Mae'r gweithdy yma wedi ei lunio ar gyfer busnesau sydd heb fentro i fyd marchnata digidol yn y gorffennol.

Gall defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol fod yn arf pwerus fel rhan o gynllun marchnata ar gyfer eich busnes, ond gyda chymaint o ddewis o wefannau a rhwydweithiau ar gael gall fod yn ddryslyd. Bydd y gweithdy yma yn rhoi trosolwg o'r rhwydweithiau cymdeithasol mwyaf poblogaidd a perthnasol er mwyn trafod beth yw rhwydweithiau cymdeithasol a pa un sydd yn addas ar gyfer eich busnes. Byddwn hefyd yn dysgu sut i siarad neu gyfleu eich neges yn effeithiol a sut i rwydweithio er budd ei busnes.

Marchnata Digidol (Uwch) - Sut I Ddefnyddio Rhwydweithiau Cymdeithasol (I'w cynnal Yn Y Gymraeg)

Yr Wyddgrug - Gwesty'r Beaufort Park - **6ed o Fawrth** - 1:30pm - 4.30pm
Llanrwst - Canolfan Glasdir - **13eg o Fawrth** - 1.30pm - 4.30pm
Wrecsam - Itec - **27ain o Fawrth** - 1.30pm - 4.30pm

Mae'r gweithdy yma wedi ei lunio ar gyfer busnesau sydd eisiau gwella eu gwybodaeth o farchnata digidol a darganfod sut i ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol i farchnata eu busnes ar-lein

Bydd y gweithdy yn canolbwyntio ar ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol i farchnata eich busnes ac adeiladu presenoldeb ar-lein. Bydd yn rhoi sylw i'r saith gwahanol fath o gwsmeriaid ar-lein, ddefnyddwyr cyfrifiaduron llechen, ac yn darganfod y ffordd gorau i'w cyrraedd, ymdrin â nhw a delio ac unrhyw broblemau.

I ARCHEBU EICH LLE FFONIWCH 03000 6 03000

Mae Busnes Cymru yn wasanaeth pwrpasol sy'n darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth uniongyrchol gan y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector i fusnesau.

Gellir defnyddio'r gwasanaeth dros y ffôn, ar-lein a thrwy rwydwaith o unarddeg o siopau un stop o amgylch Cymru. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000.

Dilynwch ni ar Twitter @BusnesCymruGog

busnes.cymru.gov.uk
03000 6 03000
business.wales.gov.uk

Busnes Cymru Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ERDF